

Llety Arall

Syniad: Llety

Y bwriad yw darparu llety yng nghanol tref Caernarfon i dwristiaid a chyd-Gymry i gael profiad o dreftadaeth, diwylliant a natur ieithyddol Caernarfon. Bydd amrywiaeth o opsiynau llety o fewn yr adeilad y gellir ei addasu ar gyfer grwpiau o ymwelwyr, gan gynnig naws boutique a gwasanaeth personol am bris rhesymol.

Mae'r syniadau cychwynol ynghylch gofodau ar lawr gwaelod yr adeilad yn cynnwys: cegin ar gyfer lletwyr, gofod i'w rentu i siop fwyd/deli, gofod aml-dddefnydd, gofod cymdeithasol.

Tref Gymreicia'r Byd

Mae Caernarfon yn dref arbennig oherwydd dyma'r dref Gymreiciaf yn y byd. Yn wyneb sefyllfa fregys y Gymraeg credwn fod angen i'n cyd-Gymry brofi fod cadarnleoedd i'r iaith Gymraeg lle siaredir y Gymraeg o ddydd i ddydd, ac yn ei dro bydd hyn yn cynyddu balchder pobl Caernarfon yn y Gymraeg a'r angen i'w dathlu a pharhau i'w throsglwyddo i'n plant. Bwriad y llety felly yw darparu llety ar gyfer teuluoedd, plant, pobl ifanc ac ymwelwyr o fannau eraill yng Nghymru i brofi natur ieithyddol y dref. Byddwn yn ymwybodol hefyd o'n cyd-destun Ewropeaidd a rhyngwladol ac felly mae'r prosiect yn ffordd o ddathlu ein hetifeddiaeth diwylliannol a ieithyddol.

(Yn ystod Eisteddfod yr Urdd 2012 yn Nyffryn Nantlle dywedodd prif weithredwraig yr Urdd Efa Gruffudd Jones: 'Ar ôl treulio penwythnos yng Nghaernarfon, dw i'n teimlo y dylai pob disgybl sy'n derbyn addysg Gymraeg gael treulio amser yno hefyd, er mwyn iddyn nhw gael y profiad o weld mai iaith fyw ydi'r Gymraeg.'))

Egwyddorion

Y norm yn ein cymdeithas ni yw gweld dibyniaeth ar arian cyhoeddus a busnesau mewnblyg er elw. Os ydym yn credu mewn creu Cymru blaengar a theg credwn fod rhaid troi hyn ar ei ben a chreu model sy'n annibynnol o arian cyhoeddus ac yn gydweithredol yn y modd y gweithiwn. Byddwn yn defnyddio cynnyrch a llafur lleol ym mhob dim a wnawn. Nod hyn oll yw datblygu tref Caernarfon yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

Model Busnes: Menter Gydweithredol Gymunedol

Yn ysbryd yr egwyddorion uchod bwriadwn dewis model menter gydweithredol/gymunedol. Credwn fod angen cynnig cyfle i gynifer o bobl â phosib i fod yn rhan o'r fenter ac i deimlo perchnogaeth dros y fenter.

Lleoliad

Mae'r adeilad dan sylw ar Stryd y Plas Caernarfon. Yn ysbryd cydweithredol y prosiect, gobeithir bydd modd cydweithio'n agos â busnesau eraill y stryd.